# HOOSON, ISAAC DANIEL (1880 - 1948), cyfreithiwr a bardd

**Enw:** Isaac Daniel Hooson
**Dyddiad geni:** 1880
**Dyddiad marw:** 1948
**Rhiant:** Harriet Hooson
**Rhiant:** Edward Hooson
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cyfreithiwr a bardd
**Maes gweithgaredd:** Eisteddfod; Cyfraith; Barddoniaeth
**Awdur:** Thomas Parry

Ganwyd 2 Mai 1880, yn Rhosllannerchrugog, mab i Edward a Harriet Hooson. Yr oedd teulu ei dad yn hanfod yn wreiddiol o Gernyw. Addysgwyd I. D. Hooson yn ysgol fwrdd y Rhos ac ysgol ramadeg Rhiwabon. Yn 1897 aeth i wasanaethu'r Mri Morris & Jones yn Lerpwl, ac yno y bu hyd 1904, pan fu farw ei dad. Yna rhwymwyd ef gyda chyfreithiwr yn Wrecsam, ac arhosodd yno hyd ddechrau'r Rhyfel Mawr cyntaf. Yn ystod y rhyfel hwnnw bu'n gwasanaethu yn y llynges. Wedi ei ryddhau yn 1919 ymsefydlodd fel partner mewn ffyrm o gyfreithwyr yn Wrecsam. O 1920 hyd 1943 daliodd y swydd o ' Official Receiver in Bankruptcy ' yng nghylch Caer a Gogledd Cymru. Bu'n noddwr i Urdd Gobaith Cymru ac yn aelod defnyddiol iawn o Gyngor yr Eisteddfod Genedlaethol a'i bwyllgorau. Rhwng 1900 a 1914 ysgrifennodd gryn dipyn o farddoniaeth, a gwelir ei gerddi yma a thraw yn *Cymru, (O.M.E.)* Yna rhoes y gorau i farddoni am flynyddoedd a phan ailddechreuodd cydnabuwyd ef ar unwaith fel un o brif feirdd Cymru. Telynegion a baledi oedd ei hoff ffurfiau, ac y mae sicrwydd ergyd a swyn gweledigaeth a mynegiant ym mhopeth a ganodd.

Cyhoeddodd *Y Fantell Fraith* (1934), cyfaddasiad o ' *Pied Piper of Hamelin* ', *Cerddi a Baledi* (1936), *Y Gwin a Cherddi Eraill* 1948). Cafodd radd M.A. er anrhydedd gan Brifysgol Cymru yn 1948. Bu farw 18 Hydref 1948.

## Awdur

**Syr Thomas Parry**, (1904 - 1985)

## Ffynonellau

W. R. Jones, *Bywyd a Gwaith I.D. Hooson* (1954)

Cafwyd y manylion uchod mewn llythyr gan Mr. H. Ellis Hughes, Coedpoeth

## Darllen Pellach

The Hooson family of Rhos, gwefan Wrexham History website, gwelwyd 2 Mai 2019

BBC cymrubywyd: I. D. Hooson

Erthygl Wicipedia: Isaac Daniel Hooson

## Sain a Ffilm

Archif ITV Cymru/Wales Archive: Hanes I. D. Hooson - Rhosllannerchrugog, 1960

## Dolenni Ychwanegol

Archifdy Prifysgol Bangor: Poetry of I. D. Hooson, Ref: GB 222 BMSS HOO

VIAF: 171037677

Wikidata: Q264107

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu